Staff Llanw / Banc - Llys Awelon

Lleoliad: Gofal Tai Ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun
Cyflog: Gradd 4, £12.85 yr awr
Oriau: Llanw

- Ydych chi'n chwilio am waith ychwanegol i'ch incwm cyfredol?
- Ydych chi eisiau hyblygrwydd gyda'ch oriau gwaith i fodloni o gwmpas eich bywyd gartref?
- Ydych chi'n ystyried gyrfa mewn gofal cymdeithasol ac yn ceisio ennill profiad?

Os mai 'ydw' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna hoffem glywed gennych chi.

Mae'r tîm Annibyniaeth yn y Cartref yn canolbwyntio ar gefnogi dinasyddion ar draws Sir Ddinbych i fod mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Rydym yn chwilio am fobl caredig a tosturiol sydd â natur gofalgar ac sydd eisiau helpu eraill.

Mae'r swyddi hyn ar sail llanw/ yn ôl y gofyn, a gallent fod yn hyblyg i fodloni eich amgylchiadau.

Darperir hyfforddiant llawn ynghyd ag telir ffioedd cofrestru a telir ffi gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan yr ymgeiswyr delfrydol agwedd gofalgar naturiol, a byddant eisiau gwneud gwahaniaeth ym mywydau eraill.

Penodir yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymdeithasol a geirdaon boddhaol.

I gael trafodaeth anffurfiol ynghylch y swyddi sydd ar gael, ffoniwch Eva Brewer, y Dirprwy Reolwr Tîm ar 01824 706040.

Gallwch gyflwyno ffurflen gais ar wefan Cyngor Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk I wybod am ddulliau eraill o wneud cais dylech anfon e-bost at swyddigofalcymdeithasol@dsirddinbych.gov.uk neu ffonio 01824 712187.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonaulaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraegyn cael eu trin yn llai ffafriolna ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

www.sirddinbych.gov.uk
swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk
☎ 01824 712187

Gofalwn.cymru

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Staff Llanw / Banc - Llys Awelon

Lleoliad: Gofal Tai Ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun
Cyflog: Gradd 4, £12.85 yr awr
Oriau: Llanw

Gweithiwr Cefnogi a Gofal Annibyniaeth yn y Cartref Llanw
Bydd deiliad y swydd yn aelod o'r tîm Ardal, byddant yn rhoi cynlluniau gofal ar waith a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth trwy helpu dinasyddion i wneud pethau drostynt eu hunain, i wneud y mwyaf o'u gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl trwy gefnogi'r person yn gyfan gwbl – trwy fynd i'r afael â'u hanghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.

Nod y rôl yw cefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain neu leoliadau cymunedol eraill i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a gwella eu hiechyd a'u lles mewn modd cydlynol. Byddant yn gweithio i ganllawiau a phrotocolau clir gyda goruchwyliaeth anuniongyrchol drwy gydol y shifft,neu ran ohono.

Darperir y gwasanaeth dros 7 niwrnod. Bydd y diwrnodau a'r oriau a weithir yn hyblyg.

Ffurflen Gais
Mae eich cais yn bwysig i ni ac mae'n rhan arwyddocaol o'r broses ddethol. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen mor llawn a chywir a phosibl.

Cyflogaeth
Dylech lenwi'r adran hon yn llawn, gan nodi pob cyfnod o gyflogaeth ers gadael addysg llawn amser, yn ogystal â dyddiadau sy'n dangos y mis a'r flwyddyn y cawsoch eich penodi/ gadael eich swydd. Rhaid i chi nodi unrhyw fylchau cyflogaeth yn glir, gan gynnwys dyddiadau ac egluro'r rheswm dros y bwlch mewn cyflogaeth, h.y. magu teulu, gofalu am berthynas, blwyddyn i ffwrdd ac ati.

Geirdaon
Byddwn yn cysylltu â'ch dau gyflogwr diwethaf am eirda, neu digon i gyfrifo am y tair blynedd ddiwethaf, pa un bynnag sydd fwyaf. Darparwch enwau a e-bost chyfeiriadau'r canolwyr hyn gan y bydd hyn yn helpu cyflymu'r broses os cewch eich penodi.

Ar gyfer pob ymgeisydd, byddwn ond yn gwneud cais am eirdaon ar ôl gwneud 'cynnig o gyflogaeth'.

www.sirddinbych.gov.uk
swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk
☎ 01824 712187

Gofalwn.cymru

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council